





Canllaw - Ffurflen gais lleiniau lluosog Enwi a Rhifo Strydoedd

Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925, adrannau 17 i 19

Oherwydd y broses gyfreithiol statudol sydd ynghlwm, gall gweithdrefn Enwi a Rhifo Stryd fod yn faith; felly rydym yn cynghori datblygwyr i gyflwyno cais cyn â phosibl yn y broses er mwyn osgoi oedi.

Rydym hefyd yn eich cynghori i ddarllen y canllaw hwn yn ofalus cyn ei gyflwyno gan y bydd ceisiadau nad ydynt yn cadw at y polisi yn cael eu gwrthod.

Manylion yr ymgeisydd

-  A fyddech gystal â chwblhau pob adran cyn llawned â phosibl.
-  A fyddech gystal â nodi mai'r e-bost yw'r dull cyfathrebu a ffeirir gennym.
-  A fyddech gystal â sicrhau bod y manylion cyswllt rydych chi'n eu darparu (e.e. ffôn / e-bost) yn rhai'r person y dylem gysylltu ag ef/hi os oes gennym unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'ch cais.
-  **Rhif cyfeirnod eich cais cynllunio:** a fyddech gystal â chynnwys hwn oherwydd gall eich cais cynllunio roddi gwybodaeth werthfawr i ni.

Mae gan Gyngor Sir Fynwy'r hawl i wrthod ceisiadau os rhoddwyd gwybodaeth annigonol neu enwau anaddas.

Manylion safle a lleoliad

Safle:

Nifer o leiniau: Dyma nifer y cyfeiriadau newydd sydd eu hangen. Er enghraifft, os ydych chi'n rhannu tŷ mawr i mewn i nifer o fflatiau, nifer y lleiniau fydd nifer y fflatiau rydych chi'n eu creu.

Enw'r datblygiad: a fyddech gystal â dweud wrthym yr enw marchnata neu'r enw answyddogol a ddefnyddiwyd i gyfeirio at y datblygiad.

A yw'r datblygiad yn cynnwys heolydd newydd? Os yw, gwelwch ein canllaw ar wahân ar ddewis enwau heolydd newydd. Os hoffech i'r awdurdod Enwi a Rhifo Strydoedd ddewis enwau ar gyfer yr heol (ydd) newydd, a fyddech gystal â nodi hyn.

Lleoliad:

Mae gwybodaeth am leoliad a mynediad i'ch datblygiad yn hanfodol ac os nad oes gennym wybodaeth ddigonol, ni fyddwn yn gallu prosesu'ch cais. Felly, mae'n hanfodol eich bod chi'n darparu'r cynlluniau canlynol:


- Cynllun lleoliad, i raddfa o ddim llai na 1: 1250, sy'n nodi lleoliad yr eiddo mewn perthynas â'u hamgylchedd daearyddol;
- Cynllun yn dangos yn glir lleoliad yr adeiladau / addasiadau newydd yn y datblygiad, gan ddangos unrhyw heolydd newydd, rhifau lleiniau a chyfeiriadedd o fewn y safle.

Os ydych chi'n adeiladu neu'n addasu eiddo o fewn ffin eiddo sy'n bodoli eisoes, yna rhowch gyfeiriad yr eiddo hwn. Os yw'r datblygiad newydd yn rhannu mynediad gyda'r eiddo presennol, rhowch wybod i ni.

Os nad yw hyn yn berthnasol, yna darparwch y canlynol:

- **Enw'r heol:** mae angen i ni wybod o ba heol y mae mynediad i'ch datblygiad. Os yw mynediad o heol ddiennw, gwnewch yn siŵr bod y mynediad a'r ffordd wedi'u marcio'n glir ar eich cynllun cysylltiedig.
- **Ardal leol neu bentref** e.e. Magwyr (os yw'n berthnasol): Os yw'ch datblygiad, er enghraifft, yng nghanol Trefynwy neu Gas-gwent (neu dref arall), ni fydd hyn yn berthnasol.
- **Cod post:** os ydych chi'n ei wybod, darparwch y cod post i'r eiddo cyfagos agosaf. Os nad ydych chi'n gwybod beth ydyw, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darparu cyfeirnod grid.

- **Cyfeirnod grid:** gallwch ddod o hyd i hwn drwy <https://osmaps.ordnancesurvey.co.uk> neu <https://gridreferencefinder.com/> Chwyddwch i mewn i leoliad eich adeilad newydd a chlicio ar y dde am fanylion.



Statws yr eiddo

Preswyl neu fasnachol?

Os yw'ch eiddo yn un masnachol, ni fydd y Post Brenhinol yn ychwanegu'ch cyfeiriad i'w Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (FfCCP) oni bai ei fod yn cwrdd â'r meini prawf canlynol:

- Mae'n rhaid iddo fod yn gyfeiriad busnes dilys gydag arwyddion clir yn dangos enw'r busnes;
- Dylai'r adeilad gael ei feddiannu yn ystod oriau busnes;
- Dylai'r pwynt dosbarthu fod yn ddiogel ac yn hygyrch ar gyfer dosbarthu post.

Felly, os yw'r eiddo'n fasnachol, efallai yr hoffech fodloni eich hun ei fod yn cwrdd, neu y bydd yn cwrdd â'r meini prawf hyn. Os na fydd, bydd y Post Brenhinol yn tynnu'r cyfeiriad o'r FfCCP.

Ffeiliau cyfeiriadau'r Post Brenhinol

Bydd y Post Brenhinol yn ychwanegu'ch cyfeiriadau newydd at ei ffeil **Heb Adeiladu Eto** (HAE); defnyddir y ffeil hon i greu cyfeiriadau swyddogol ar gyfer eiddo sy'n cael eu hadeiladu. Mae hyn yn amddiffyn gweithwyr dosbarthu post y Post Brenhinol rhag y risg o anaf a achosir trwy fynd i mewn i safle adeiladu ac yn amddiffyn rhag twyll trwy sicrhau nad yw adeiladau nad oes ganddynt flwch post diogel eto yn derbyn unrhyw bost.

Os yw'r adeiladau / addasiadau newydd wedi'u cwblhau, bod ganddyn nhw flwch post diogel a'u bod yn barod i symud i mewn iddyn nhw, gallwch ofyn am ychwanegu'r cyfeiriadau at FfCCP (y Ffeil Cyfeiriadau Cod Post) ar unwaith. Fodd bynnag, mae'r Post Brenhinol yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ar gyfer hyn. Bydd ffotograff o'r eiddo gorfonedig yn ddigonol fel rheol.

A fyddech gystal â nodi'r canlynol:

- Mae cyfeiriadau a gedwir ar ffeil HAE yn swyddogol; byddwch yn dal i allu cael gwasanaethau fel dŵr, trydan a band eang;
- Os gofynnwch i'r cyfeiriadau gael eu hychwanegu at FfCCP yn gynamserol, (h.y. cyn eu bod wedi'u cwblhau) ac na all y gweithiwr dosbarthu post ddosbarthu post, bydd y Post Brenhinol yn eu tynnu ac yn eu hychwanegu at y ffeil HAE.

Cyfrifoldeb y datblygwr yw sicrhau ei fod yn cysylltu â'r Post Brenhinol i'w hysbysu pan fydd eiddo'n cael ei feddiannu fel y gall y Post Brenhinol symud y manylion o'r ffeil HAE i'r Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (FfCCP).

Gellir cysylltu â'r Post Brenhinol ar: addressdevelopment@royalmail.com

Enwau eiddo a/neu heolydd arfaethedig

Rhifau neu enwau?

Bydd rhifau bob amser yn cael eu ffafrio dros enwau lle mae datblygiadau newydd yn y cwestiwn. Os yw stryd newydd yn cael ei hadeiladu, rhoddir rhifau i bob eiddo newydd ar y stryd.

Os yw'r adeiladau newydd ar stryd lle mae'r holl eiddo presennol wedi'u rhifo, neilltuir rhifau i'r adeilad / adeiladau newydd hefyd. Gallwch ddewis enw yn ychwanegol at y rhif os hoffech chi wneud hynny.

Gellir rhoi enwau i dai mewn lleoliadau gwledig lle nad oes cynllun rhifo ar gael. Fodd bynnag, os ydych chi am i'ch eiddo newydd gael enwau unigol, darllenwch y canllawiau canlynol yn ofalus oherwydd bydd gofyn i chi ddarparu **o leiaf dri enw gwreiddiol** ar gyfer pob un o'ch eiddo newydd.

Os hoffech drafod hyn cyn cyflwyno'ch cais, ffoniwch 01633 644644 a gofynnwch am ymholiadau Enwi a Rhifo Strydoedd neu e-bostiwch contact@monmouthshire.gov.uk

Enwau eiddo

Mae'r rheolau sy'n llywodraethu enwi eiddo unigol yn llym; mae enw unigryw yn hanfodol i sicrhau y gellir lleoli eiddo yn gyflym ac yn hawdd.

Ymgynghorir â'r Post Brenhinol a'r Tîm Rhestrau Tir ac Eiddo Lleol ar bob enw eiddo newydd; **byddant yn gwrthod enwau nad ydynt yn cwrdd â'r rheolau canlynol.**

A fydddech gystal â sicrhau eich bod yn darllen y canllawiau canlynol ar enwi YN OFALUS cyn i chi gwblhau'r adran hon.

Gair i Gall wrth ddewis enwau eiddo

Yr hyn y dylech wneud:

- ✓ Dewis enw sydd mor wreiddiol â phosib.
- ✓ Cofio bod enwau sy'n cynnwys coed, llwyni a'u tebyg yn tueddu i fod yn hynod boblogaidd, e.e. Rhosyn, Perllan, Derwen, ac ati.
- ✓ *Gwirio'ch enw ar Ddarganfyddwr Cod Post y Post Brenhinol am wreiddioldeb (gweler isod am fanylion).*
- ✓ Rhoi **o leiaf dri** awgrym ar gyfer enwi pob eiddo newydd.

Yr hyn na ddylech wneud:

- ✗ Dewis enw sy'n cael ei ddefnyddio gan unrhyw eiddo arall neu'n swnio'n rhy debyg i eiddo arall yn yr ardal, e.e. NP7 5., NP16 4., NP26 3...
- ✗ Dewis tri awgrym sydd ddim ond yn amrywiadau ar thema, e.e. Bwthyn Rhosod, Porthdy Rhosod, Cwrt Rhosod.
- ✗ Dewis enw sy'n swnio'n hiliol, yn rhywiaethol, yn anwedus neu'n agored i'w gamddechongli.
- ✗ Dewis enw sy'n rhy hir.
- ✗ Dewis enw sy'n cynnwys "yn", e.e., *Y Porthdy yn Nhŷ Helygen..*
- ✗ Dewis enw sy'n rhy gyffredinol, e.e. *Y Porthdy, Yr Ysgubor, Y Bwthyn*, ac ati.

Gwiriwch yr enw(au) o'ch dewis ar wasanaeth darganfyddwr cod post y Post Brenhinol:

Gallwch wirio'ch enwau dewisol am wreiddioldeb trwy fynd i: <https://www.royalmail.com/find-a-postcode>

Os teipiwch yr enw a ddewiswyd gennych a rhan gyntaf y cod post, fe welwch a oes unrhyw eiddo eraill â'r enw hwn yn eich ardal (gweler y darlun).

Find an address

Type a part of address or postcode to begin

Rose NP7 0

- Rose Cottage, Maes Y Gwartha Road Gilwern, Abergavenny, NP7 0EU
- Rose Cottage, Ty Gwyn Road Gilwern, Abergavenny, NP7 0HL
- Rose Cottage Clydach, Abergavenny, NP7 0LG
- Rose Cottage Clydach, Abergavenny, NP7 0LL
- Rose Cottage, Upper Cwm Nant Gam Llanelly Hill, Abergavenny, NP7 0PF

Enwau heol

Mae'r broses o enwi heol newydd yn un faith a chymhleth. Felly, rydym wedi cynhyrchu canllawiau penodol y bydd angen i chi eu darllen os ydych am ddewis enwau heolydd newydd.

Gwybodaeth ynghylch datganiad a thaliad yr ymgeisydd

A fydddech gystal â chadarnhau eich bod wedi talu'r ffi ac wedi darllen y nodiadau canllaw.

Gallwch dalu am eich cais enwi a rhifo strydoedd naill ai:

- Gyda cherdyn trwy Swyddfa'r Ariannwr ar 01633 644355; rhowch wybod iddynt ei fod ar gyfer cais Enwi a Rhifo Strydoedd a dyfynnu eich cyfenw a llinell gyntaf eich cyfeiriad fel cyfeirnod. Rhowch eich rhif derbynneb yn y gofod a ddarperir fel y gallwn glymu'ch taliad â'r cais cywir.

- BACS; os hoffech dalu drwy BACS, a fydddech gystal ag e-bostio developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk a byddwn yn darparu manylion y cyfrif banc a rhif cyfeirnod y taliad ar eich cyfer.
- Gyda siec yn daladwy i Gyngor Sir Fynwy a'i bostio i'r cyfeiriad isod ynghyd â'ch ffurflen gais.

Ffi sy'n ddyledus:

Y ffi ar gyfer dwy lain yw £227; am fwy na dwy lain, mae'n £167.10 ynghyd â £59.58 y llain.

Er enghraifft, os ydych yn gwneud cais am 5 llain, y cyfrifiad fydd:

$$59.58 \times 5 = 297.90 + 167.10 = \text{£}465$$

Defnyddiwch y gyfrifiannell ar-lein a theipiwch nifer y lleiniau i gyfrifo'r swm sy'n ddyledus

Calculator for multiple new plots

Enter number of plots here:

5	£465.00
---	---------

A fydddech gystal â nodi na fyddwn yn dechrau gweithio ar eich cais nes bod eich ffi wedi'i thalu'n llawn.

Os ydych wedi cwblhau cais copi caled, a fydddech gystal â'i anfon i:

At Sylw Enwi a Rhifo Strydoedd

Cyngor Sir Fynwy

Cil-y-coed NP26 9AN

Neu e-bostiwch eich cop fel PDF i developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk

I drafod eich cais, a fydddech gystal â ffonio 01633 644644 a gofyn am ymholiadau Enwi a Rhifo Strydoedd neu e-bostiwch developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk